

Rhaglen Gyflawn



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL



CONWY
CYNGOR BWADESTRIF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL



CYNGOR
Sir Ddinbych
Denbighshire
COUNTY COUNCIL

CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWADESTRIF SIROL
wrexham

Cyfarfod

CYD-BWYLLGOR GWE

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD MERCHER, 20FED MAI, 2020

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Pwynt Cyswllt

Annes Sion

01286 679490

AnnesSion@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 14 Mai 2020)

CYD-BWYLLGOR GWE

Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

Cynghorydd Julie Fallon	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cynghorydd Meirion Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts	Cyngor Sir Ddinbych
Cynghorydd Ian Roberts	Cyngor Sir y Fflint
Cynghorydd Phil Wynn	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cynghorydd Cemlyn Rees Williams	Cyngor Gwynedd

Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais

Rosalind Williams	Eglwys yng Nghymru
Haf Williams	Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd
Claire Armitstead	Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd
Jonathan Morgan	Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig
Alison Fisher	Cynrychiolydd Llywodraethwr

Swyddogion Heb Bleidlais

Rhys Howard Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn
Dr Lowri Brown	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Karen Evans	Cyngor Sir Ddinbych
Claire Homard	Cyngor Sir y Fflint
Ian Roberts	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Garem Jackson	Cyngor Gwynedd

Swyddogion yn bresennol

Arwyn Thomas	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE
Dafydd L. Edwards	Awdurdod Lletyol
Sion Huws	Awdurdod Lletyol
Susan Owen Jones	Rheolwr Busnes GwE
Annwen Morgan	Cyngor Sir Ynys Môn
Alwyn Jones	Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE
Gareth Williams	Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE

Sylwedydd

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

4 - 8

(copi wedi ei atodi)

5. CYFRIFON 2019/2020 - ALLDRO REFENIW

9 - 13

Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd i ddiweddarau aelodau'r Cyd-bwyllgor ar adolygiad ariannol derfynol cyllideb GwE am y flwyddyn ariannol 2019/20.

6. YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I COVID-19 : TORIADAU I'R GRANTIAU RHANBARTHOL

14 - 16

Rheolwr Gyfarwyddwr GwE i ddiweddarau aelodau'r Cyd-bwyllgor am y sefyllfa ynghylch y grantiau rhanbarthol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21.

7. CYMWYSTERAU

17 - 27

Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE i gyflwyno adroddiad sy'n ystyried goblygiadau y penderfyniad i gau ysgolion ac i beidio cynnal cyfres arholiadau 2020.

8. PONTIO YN ÔL I'R YSGOL

28 - 39

Rheolwr Gyfarwyddwr GwE i gyflwyno adroddiad i drafod trefniadau pontio i gael dysgwyr yn ôl i'r ysgol.

CYD-BWYLLGOR GWE DYDD MERCHER, 26 CHWEFROR 2020

Yn bresennol:

Y Cynghorwyr: Phil Wynn (Cadeirydd - Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam), Meirion Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), Huw Hilditch-Roberts (Cyngor Sir Ddinbych), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint) a Cemlyn Williams (Cyngor Gwynedd).

Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais: Haf Williams (Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd) a Claire Armitstead (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd).

Swyddogion heb bleidlais: Rhys Howard Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn), Jenny Williams (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Karen Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint) a Garem Jackson (Cyngor Gwynedd)

Swyddogion yn bresennol: Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE), Sion Huws (ar ran Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Hywyn Jones (Uwch Gyfrifydd Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Susan Owen Jones (Rheolwr Busnes GwE), Annwen Morgan (Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn), Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE), Gareth Williams (Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE), Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Sioned Mai Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol) a Bethan Roberts (Rheolwr Rheoli Perfformiad, GwE)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dr Lowri Brown (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Ian Roberts (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw faterion brys.

4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar y 27 Tachwedd 2019 fel rhai cywir.

5. CATEGOREIDDIO CENEDLAETHOL

PENDERFYNIAD

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad gan fynegi pryder am y drefn yn genedlaethol. Gofynnwyd i'r Aelodau'r Cyd-Bwyllgor i godi eu pryderon gyda'r Gweinidog Addysg yng Nghyfarfod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Gofynnwyd hefyd i'r Bwrdd Rheoli i gynnal adolygiad ar y drefn yn lleol.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad ac esboniwyd y broses gan fynegi ei fod yn drefn barhaus. Nodwyd fod hawl gan ysgolion i apelio, ond nad oedd un wedi apelio eleni.

Mynegwyd fod cymedroli rhanbarthol wedi ei gynnal ac fod samplau rhanbarthol wedi eu hanfon i gael eu cymedroli yn genedlaethol. Ychwanegwyd nad oedd newidiadau yn dilyn y cymedroli cenedlaethol. Esboniwyd nad oes dadansoddiad cenedlaethol, ond yn gyffredinol, mae cynnydd yn yr ysgolion categori gwyrdd, gyda 10% o ysgolion mewn categori coch. Ar y cyfan, ychwanegwyd fod y proffil cynradd yn gadarnhaol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Codwyd pryder am y drefn yn genedlaethol. Nodwyd ei bod yn anodd deall y drefn a phwysleisiwyd yr angen am gysondeb.
- Nodwyd bod rhieni a'r wasg yn camddehongli lliwiau sydd ynghlwm â'r categori cefnogaeth pan mae'r categorieddio yn cael ei gyhoeddi ar 'Fy Ysgol Leol'.
- Pwysleisiwyd mae'r Awdurdod Lleol sydd yn penderfynu ar y lliwiau.

6. CYLLIDEB GWE 2019-20 – ADOLYGU CHWARTER 3

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adolygiad chwarter 3 yn amcangyfrif gorwariant net o £27,000 sydd yn sefyllfa lled-niwtral yng nghyd destun cyfanswm gwariant. Ychwanegwyd nad oes newid sylweddol i'r hyn adroddwyd yn chwarter 3 – a oedd yn amlygu gorwariant o £36,000. Pwysleisiwyd nad oes angen poeni am y gorwariant gan ei fod dan reolaeth.

Tynnwyd sylw at yr amrywiadau ariannol gan nodi o ran gorwariant gweithwyr fod y lleihad Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant wedi ei weithredu o 1 Medi 2019 ac o ganlyniad fod gorwariant un-tro yn 2019-20. Ni aethpwyd drwy'r gyllideb gan nad oedd llawer o newid o'r adroddiad blaenorol.

7. CYLLIDEB SYLFAENOL 2020/21

PENDERFYNIAD

Penderfynwyd mabwysiadu'r gyllideb sylfaenol ar gyfer 2020/21 fel y cyflwynwyd yn Atodiad 1 o'r adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod cyfraniad yr Awdurdodau Lleol yn wraidd i'r gyllideb sylfaenol. Mynegwyd fod y gyllideb yn adlewyrchu penderfyniad y prif weithredwyr i ychwanegu chwyddiant yn llawn ac i beidio gweithredu toriad yn 2020/21. Ychwanegwyd fod hyn o ganlyniad i setliad ariannol gwell i Awdurdodau Lleol nac sydd wedi ei dderbyn dros y blynyddoedd diwethaf. Nodwyd o ganlyniad i hyn nad oes colofn arbedion i'w gweld yn y gyllideb. Dros y blynyddoedd diwethaf mae GwE wedi derbyn toriadau sylweddol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd ble gwnaethpwyd y penderfynwyd y bydd Awdurdodau Lleol yn ychwanegu chwyddiant llawn ac i beidio gweithredu toriad. Esboniwyd fod trafodaeth wedi ei gynnal rhwng y Prif Weithredwyr ym mis Ionawr, a'u bod wedi cynnal trafodaeth deg yn edrych ar oblygiadau hyn. Nodwyd fod yr holl Brif Weithredwyr wedi gwneud penderfyniad unfrydol ar hyn.
- Nodwyd fod rhai ysgolion mewn diffyg ariannol. Mynegwyd fod y penderfyniadau am gyllidebau ysgolion yn cael ei gwneud gan yr Awdurdodau Lleol.

8. **GRANT GWELLA ADDYSG – ADOLYGIAD**

PENDERFYNIAD

Penderfynwyd:

1. Oedi wrth ystyried adolygu dosbarthiad cyllid Cyfnod Sylfaen y Grant Gwella Addysg nes bydd Llywodraeth Cymru wedi crisialu ei sefyllfa ar drosglwyddo grant y cyfnod sylfaen, neu beidio, yn y pendraw.
2. Cynnal adolygiad o ddosbarthiadau cyllid Effeithlonrwydd Ysgol y Grant Gwella Addysg
3. Adolygu defnydd presennol o elfennau'r Grant nad ydynt wedi'u dirprwyo.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi sut mae'r Grant Gwella Addysg yn cael ei ddyrannu o fewn y rhanbarth. Er mwyn cael cysondeb rhanbarthol bydd angen edrych ar y modd mae'r GGA yn cael ei ddefnyddio a'i ddirprwyo. Edrychwyd ar elfennau penodol a'r amodau cyllid. Nodwyd fod toriadau sylweddol wedi bod i'r gyllideb graidd a'r gyllideb grant yn y gorffennol. Crynhowyd argymhellion yr adroddiad a gofynnwyd am ganiatâd i gynnal adolygiad o'r grant yma yn ei gyfanrwydd.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Cytunwyd y dylai'r person sy'n cynnal yr adolygiad fod yn berson annibynnol o GwE a dylai fod yn fedrus wrth ddeall cyllidebau cymhleth.
- Mynegwyd pryder ein bod yn dal i redeg hen system a'i bod yn amserol i edrych ar y mater yma a chael cysondeb a thegwch.
- Nodwyd fod yr adolygiad yn cael ei groesawu. Credwyd bod anghysondeb hanesyddol yng nghyfraddau dirprwyo i'r Awdurdodau Lleol a bydd yr adolygiad yn dod a gwell eglurder ar draws y rhanbarth.

9. **GRANT GWELLA ADDYSG 2020/21**

PENDERFYNIAD

Penderfynwyd gohirio'r penderfyniad er mwyn cael arweiniad gan Brif Weithredwyr y rhanbarth ar ariannu adnoddau ychwanegol ar gyfer Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg (CGOA) Wrecsam ac yna bydd cyfarfod brys yn cael ei gynnal i wneud penderfyniad ar y mater.

TRAFODAETH

Cadeiriwyd yr eitem yma gan y Cyngorydd Meirion Jones. Mynegwyd diolch i Hefin Owen, Cyngor Gwynedd am ei waith, a dymunwyd yn dda iddo pan fydd yn ymddeol.

Nodwyd yng nghyfarfod y Bwrdd Rheoli diwethaf, cytunwyd i'r Grant Gwella Addysg gael ei ddosrannu yn yr un modd a llynedd a chynnal adolygiad wrth fynd ymlaen. Nodwyd fod cynnydd o £560k yn y grant ar gyfer y Cyfnod Sylfaen y flwyddyn yma. Trafodwyd os dylid

defnyddio'r adnodd ychwanegol yma ar gyfer ariannu adnoddau ychwanegol ar gyfer gweithredu CGOA Wrecsam. Mynegwyd mai amcan bris i roi'r gefnogaeth oedd £300k. Rhedwyd drwy'r argymhellion a'r 5 opsiwn.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod tri Awdurdod Lleol eisoes wedi cael adolygiad gan Estyn ond fod tri yn aros am yr adolygiad yma. Pryderwyd y bydd yr Awdurdodau Lleol eraill angen cefnogaeth ychwanegol ar ôl iddynt gael adolygiad gan Estyn.
- Roedd consensws fod angen helpu Wrecsam ond cwestiynwyd os mai hyn yw'r ffynhonnell arian briodol i'w helpu am fod yr arian yma ar gyfer ariannu cyfnod sylfaen.
- Yr opsiwn oedd yn cael ei ffafrio oedd 3.4.4 ond nodwyd fod y Cydbwyllgor angen arweiniad o beth oedd ariannu'n rhannol yn ei olygu, sef pa ganran neu faint. Awgrymwyd y dylai Wrecsam orfod darganfod y mwyafrif o'r arian sydd ei angen.
- Eglurwyd fod Wrecsam yn cyfarfod Estyn diwedd mis Mawrth. Nodwyd na ddylai'r Cydbwyllgor oedi'r penderfyniad er mwyn tegwch i Wrecsam a dylid ail gyfarfod cyn y 25^{ain} o Fawrth, fel bod modd rhoi eglurdeb i Estyn am y ffordd ymlaen.
- Nodwyd y bydd angen cyfarfod arbennig yn dilyn trafodaethau y Prif Weithredwyr.

10. CYNLLUN BUSNES 2019-20 – ADRODDIAD MONITRIO CHWARTER 3

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad monitro ar gyfer chwarter 3.

TRAFODAETH

Nodwyd yr argymhelliad a derbyniwyd yr adroddiad.

11. CYNLLUN BUSNES GWE 2020-2023- BLAENORIAETHAU RHANBARTHOL

PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd y Cynllun Busnes drafft a'r blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer 2020-2023.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai eleni yw blwyddyn olaf y cynllun busnes tair blynedd presennol, ac fod y drafft yma yn nodi'r cyfeiriad am y dair blynedd nesaf. Amlinellwyd y blaenoriaethau. Nodwyd fod y blaenoriaethau yn gyfuniad o wella darpariaeth, arweinyddiaeth a deilliannau ysgolion, yn ogystal â chyflawni'r daith ddiwygio. Mynegwyd fod yr amcanion strategol yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol a nodwyd fod gan GwE rôl ganolog.

Nodwyd fod trafodaethau wedi eu cynnal gydag ysgolion ynglŷn a'r blaenoriaethau a'r heriau. Pwysleisiwyd mai'r brif flaenoriaeth oedd y daith ddiwygio.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd yr angen i gynnal trafodaethau gyda llywodraethwyr ysgolion.

12. COFRESTR RISG GWE

Penderfyniad

Nodwyd a derbyniwyd y Gofrestr Risg.

13. GWEITHIO GYDA’N GILYDD I WELLA YSGOLION

Penderfyniad

Penderfynwyd cynnal adolygiad o rôl presennol Arweinydd Craidd GwE a systemau rhannu gwybodaeth rhwng Awdurdodau Lleol a GwE.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mewn cyfarfod diweddar o Fwrdd Rheoli GwE, argymhellwyd i adolygu rôl yr Arweinydd Craidd a'r strwythur ar draws y rhanbarth, ynghyd â rhannu gwybodaeth rhwng Awdurdodau Lleol a GwE.

Ychwanegwyd fod Llywodraeth Cymru yn peilota cynllun, ar y cyd â rhanddeiliaid, er mwyn cael darlun holistig o'r ddarpariaeth sydd yn cael ei roi i ysgolion.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd fod y trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a GwE wedi aeddfedu wrth i drafodaethau fynd yn eu blaen.
- O ran rhannu gwybodaeth rhwng Awdurdodau Lleol a GwE, mynegwyd fod G6 ar gael ond fod gan Awdurdodau systemau ogystal. Pwysleisiwyd yr angen am adolygiad gan fod anghysondeb ar draws y rhanbarth. Nodwyd bod angen protocol clir ar sut y bydd gwybodaeth yn cael ei rannu a'r risgiau sydd yn codi o wneud hyn.
- Penderfynwyd fod angen trafodaeth bellach ar rannu gwybodaeth yn y cyfarfod nesaf.

14. CALENDR CYFARFODYDD

PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd y calendr cyfarfodydd y cynnigwyd a rhoddwyd awdurdod i'r Cadeirydd i wneud newidiadau os y bydd angen.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 12.15 y.h.



CYFARFOD	Cydbwyllgor GwE
DYDDIAD	20 Mai 2020
TEITL	Cyfrifon Terfynol GwE 2019/20 – Alldro Refeniw
PWRPAS	• Diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol derfynol cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2019/20. • Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn.
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr adroddiad.
AWDUR	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd.

1. PENDERFYNIAD

- 1.1 **Nodi a derbyn y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2019/20 yma fel Atodiad 1**, ynghyd â sylwadaeth ar y prif wahaniaethau rhwng y gyllideb a'r gwir wariant a gyflwynir er gwybodaeth yn unol â'r drefn "arferol", ar ffurf adroddiad "alldro".

2. CEFNDIR

- 2.1 Adroddir ar sefyllfa terfynol o dan-wariant net o (£189,618) yn erbyn y gyllideb, yn bennaf oherwydd tanwariant ar weithwyr ynghyd a'r gyllideb Broceru.
- 1.2 Newid o (£217,253) i'r hyn adroddwyd yn chwarter 3, sef amcangyfrif gorwariant o £27,635, gyda'r rhan ddilynol o'r adroddiad yn egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau.

3. AMRYWIADAU ARIANNOL

3.1 **Gweithwyr:**

Sefyllfa Derfynol: Tanwariant (£135,191) Chwarter 3: gorwariant £39,249.

Yn adolygiad Chwarter 3, disgwyliwyd gorwariant o £39,249 yn 2019/20, ond erbyn hyn mae secondiadau staff a chyfraniadau amser staff craidd i gynlluniau a phrosiectau newydd, ariannwyd drwy grant, wedi arwain at danwariant. Oherwydd amserlenni a blaenoriaethau, fel tasg unwaith ac am byth, defnyddiwyd yr adnoddau craidd i wneud y gwaith grant yma, gan arwain at danwariant un-tro.

3.2 **Adeilad:**

Sefyllfa Derfynol: Gorwariant £15,108 Chwarter 3 : Niwtral.

Gorwariant oherwydd cost uwch ar ddefnydd o wasanaethau, a gostyngiad mewn incwm am ddefnydd prosiectau penodol o ystafelloedd GwE.

Sefyllfa Covid 19 erbyn mis Mawrth 2020, yn golygu bod nifer fawr o gyfarfodydd a digwyddiadau heb eu cynnal, ac felly yn arwain at leihad yn yr incwm.

3.3 **Cludiant:**

Sefyllfa Derfynol: Tanwariant (£2,250) Chwarter 3: tanwariant (£9,017).

Dim newid o sylwedd i'r hyn adroddwyd yn Chwarter 3. Mae gwir gost costau teithio blynyddol ychydig yn is na'r hyn sydd wedi ei sefydlu yn y gyllideb.

3.4 **Broceru:**

Sefyllfa Derfynol: Tanwariant (£58,467) Chwarter 3: Niwtral.

Mae cynlluniau penodol, gan gynnwys rhai cynlluniau wedi'u cyllido gan grantiau penodol, wedi'u blaenoriaethu gan y gwasanaeth, sy'n golygu tanwariant ar y pennawd yn 2019/20.

3.5 **Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol (GGYCR)**

Sefyllfa Derfynol: Niwtral Chwarter 3 : Niwtral.

Roedd y GGYCR yn cynnwys pennawd ar gyfer secondiad y Cyfarwyddwr Cynorthwyol am gyfnod o flwyddyn. Gan fod y secondiad wedi dod i ben ar y 31 Awst 2019, a thelerau Llywodraeth Cymru yn nodi fod yr arian yn benodol i'r pwrpas yma, mae'r arian sy'n weddill yn cael ei adhawlio.

Dadansoddi'r grant gyflawn isod:

Datganoledig*	£26,064,004
Heb ei ddatganoli	<u>£ 8,706,919</u>
Cyfanswm	<u>£34,770,923</u>
Grant	£32,284,643
Arian Cyfatebol	<u>£ 2,486,280</u>
Cyfanswm	<u>£34,770,923</u>

* Nid yw cyfrifon GwE yn cynnwys grantiau wedi eu dosbarthu'n uniongyrchol i'r ysgolion.

4. CRONFA TANWARIANT

- 4.1 Cyfanswm y gronfa ('balansau cyffredinol' GwE) ar gychwyn y flwyddyn gyllidol 2019/20 oedd (£290,586).
- 4.2 Mae'r tanwariant net o (£189,618) yn cynyddu'r gronfa wrth gefn i (£480,204) ar ddiwedd 2019/20. Bydd adroddiad i gyfarfod dilynol yn ystyried defnydd posibl o'r gronfa wrth gefn, wedi cyfnod yr argyfwng presennol.

ATODIADAU

Atodiad 1: Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2019/20.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Y Swyddog Cyllid Statudol:

Cyd-awdur yr adroddiad.

CYD-BWYLLGOR GwE

CYFRIF INCWM A GWARIANT REFENIW 2019/20

	Cyllideb	Gwariant	Gor / (Tan) Wariant Net £
	£	£	£
Gwariant			
Gweithwyr			
Cyflogau			
- Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth	844,062	821,058	(23,003)
- Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant	3,540,778	3,374,128	(166,650)
- Staff ar Secondiad	46,080	46,080	0
- Trosglwyddo yn erbyn 'Prosiectau Penodol'	(1,688,385)	(1,633,923)	54,462
Hyfforddiant, hysbysebu a costau gweithwyr eraill	40,897	38,059	(2,838)
Adeilad			
Rhent (yn cynnwys gwasanaethau)	166,363	175,610	9,247
Ad-daliad Defnydd 'Prosiectau Penodol' o'r ystafelloedd	(45,611)	(39,750)	5,861
Cludiant			
Costau Teithio	131,811	129,561	(2,250)
Cyflenwadau a Gwasanaethau			
Dodrefn, offer, argraffu, post, ffôn, hurio stafelloedd ayb	70,080	74,059	3,979
Technoleg Gwybodaeth (cyfraniad i gronfa adnewyddu)	15,841	15,841	0
Ffioedd archwilio	11,000	11,000	0
Broceru	277,230	218,763	(58,467)
Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Lletyol Cyngor Gwynedd			
Cyfreithiol	5,498	5,498	0
Adnoddau Dynol	9,428	9,428	0
Cyllid	40,770	40,770	0
Technoleg Gwybodaeth	45,092	45,092	0
Arbedion 2018/19 i'w darganfod	0	0	0
Arbedion i'w darganfod - cyllideb rhent	0	0	0
Arbedion i'w darganfod - diffyg cyllideb Cyflenwadau a Gwasanaethau	0	0	0
Arbedion 2019/20 i'w darganfod	0	0	0
Ymrwymadau Model Cenedlaethol	469,948	469,948	0
Cyfraniad i'r Gronfa Gofynion Pensiwn	165,287	165,287	0
Prosiectau Penodol			
Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol	8,913,912	8,913,912	0
Grant Amddifadedd Disgyblion - Plant Mewn Gofal	973,100	973,100	0
Grant Amddifadedd Disgyblion - Cyngorydd Strategol	100,000	100,000	0
ANG	251,184	251,184	0
Trawsnewid Y System Ady	148,404	148,404	0
System Adolygu Rheolaeth Ysgol Gogledd Cymru	8,703	8,703	0
Cyfanswm Gwariant	14,541,472	14,361,813	(179,659)

	Cyllideb	Incwm	Gor / (Tan) Variant Net £
	£	£	£
<u>Incwm</u>			
Cyfraniadau ar gyfer costau rhedeg y gwasanaeth craidd			
- Cyngor Ynys Môn (10.20%)	(416,697)	(416,697)	0
- Cyngor Gwynedd (17.64%)	(720,531)	(720,531)	0
- Cyngor Conwy (15.30%)	(624,919)	(624,919)	0
- Cyngor Dinbych (15.26%)	(623,132)	(623,132)	0
- Cyngor Fflint (22.71%)	(927,504)	(927,504)	0
- Cyngor Wrecsam (18.89%)	(771,761)	(771,761)	0
Incwm Secondiadau	(46,080)	(46,080)	0
Incwm Cyffredinol	(15,545)	(18,680)	(3,135)
Prosiectau Penodol			
Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol	(8,913,912)	(8,913,912)	0
Grant Amddifadedd Disgyblion - Plant Mewn Gofal	(973,100)	(973,100)	0
Grant Amddifadedd Disgyblion - Cynghorydd Strategol	(100,000)	(100,000)	0
ANG	(251,184)	(251,184)	0
Trawsnewid Y System Ady	(148,404)	(148,404)	0
System Adolygu Rheolaeth Ysgol Gogledd Cymru	(8,703)	(8,703)	0
Llog ar falansau	0	(6,824)	(6,824)
Cyfanswm Incwm	(14,541,473)	(14,551,431)	(9,959)
Cyfanswm Cyllideb Net	(0)	(189,618)	(189,618)
<u>Memorandwm -</u>			
<u>Y Gronfa Tanwariant</u>			
	Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2019	(290,586)	
Ychwaneger/Llai - (Tan)/Gorwariant am y flwyddyn gyllidol 2019/20		(189,618)	
	Llai - Defnydd o'r Gronfa	0	
	Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2020	(480,204)	
<u>Cronfa Adnewyddu Technoleg Gwybodaeth</u>			
	Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2019	(55,479)	
Ychwaneger - Cyfraniad am y flwyddyn gyllidol 2019/20		(15,841)	
	Llai - Defnydd o'r Gronfa	0	
	Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2020	(71,320)	
<u>Cronfa Gofynion Pensiwn</u>			
	Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2019	5,498	
Ychwaneger - Cyfraniad am y flwyddyn gyllidol 2019/20		(165,287)	
	Llai - Defnydd o'r Gronfa	0	
	Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2020	(159,789)	



ADRODDIAD I'R CYDBWYLLGOR

20 Mai 2020

Adroddiad gan: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Pwnc: Ymateb Llywodraeth Cymru i Covid-19: Toriadau i'r Grantiau Rhanbarthol

1.0 Diben yr Adroddiad

1.1 Diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor am y sefyllfa ynghylch y grantiau rhanbarthol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21.

2.0 Y Cefndir

2.1 O ganlyniad i ymateb Llywodraeth Cymru i Covid-19, gofynnwyd i GwE (8 Ebrill 2020) ddod o hyd i 3% (£950,000) o arbedion o gyfanswm dyraniadau dangosol Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol ar gyfer y cyfnod 2020/2021. Mae hyn yn cynnwys y Grant Gwella Addysg.

2.2 Cawsom e-bost arall ar 6^{ed} Mai 2020, yn rhoi manylion rhagor o arbedion y mae Gweinidogion wedi cytuno arnynt. Yn ogystal â'r gostyngiad o 3% (£4.2m) yn gyffredinol, mae Gweinidogion hefyd wedi cytuno i wneud yr arbedion canlynol:

- Arbed £150,000 o'r gyllideb Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch
- Arbed £454,000 o'r gyllideb ar gyfer 'Cymorth Consortia Craidd i Ddylunio ac i Ddatblygu'r Cwricwlwm newydd'
- Gostyngiad o £5m yn y gyllideb Dysgu Proffesiynol.

2.3 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi ei bod hi'n bosibl y bydd angen rhagor o gymorth ac arian er mwyn ymateb i Covid-19. Bydd y Cydbwyllgor yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf wrth i wybodaeth a cheisiadau'n dod i law.

3.0 Ystyriaethau

3.1 Er mwyn gallu cyflawni toriadau o 3%, cafodd nifer o dybiaethau eu gwneud ac mae'r rhain yn cael eu hamlinellu isod:

- Bydd yr arbedion ddim ond yn berthnasol i'r flwyddyn ariannol 2020/2021 (mae arbedion unwaith ac am byth wedi cael eu nodi oherwydd bod ysgolion ar gau tan o leiaf mis Medi 2020 ac felly bydd gwaith ysgol i ysgol a dysgu proffesiynol yn gyfyngedig yn ystod y cyfnod hwn). Nid yw'r arbedion hyn yn gynaliadwy mewn blynyddoedd i ddod.
- Bydd arian cyfatebol awdurdodau lleol yn aros ar yr un lefel â 2019/2020 (Petai hyn yn cael ei leihau / ostwng yna byddai'n rhaid arbed £2.5m arall).
- Bydd y Grant PDG ac elfen plant sy'n derbyn gofal y grant PDG yn parhau fel y cyhoeddwyd o'r blaen.
- Ariennir cyflog yr holl staff.
- Ni fydd unrhyw doriadau ychwanegol i'r gyllideb graidd ar gyfer 2020/2021 gan yr awdurdodau lleol.

3.2 Mae'r toriadau ychwanegol a gyhoeddwyd ar 6ed Mai 2020 yn gyfystyr â £1,263,019* i'r rhanbarth.

3.3 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r toriadau sy'n berthnasol i'r rhanbarth ar 12/05/20.

	Swm (£)
Torri 3%	950,000
Toriadau Ychwanegol – a gyhoeddwyd ar 06/05/20	1,263,019*
Cyfanswm	2,213,019

**Ffigurau dangosol a ddarparwyd gan GwE – nid yw Llywodraeth Cymru wedi darparu dadansoddiad fesul rhanbarth eto*

3.4 Wrth benderfynu ynghylch toriadau, roedd Gweinidogion yn disgwyl y byddai'r rhan fwyaf o arbedion yn cael eu gwneud drwy arbedion naturiol oherwydd bod ysgolion ar gau a bod dysgu proffesiynol a gwaith ysgol i ysgol yn gyfyngedig, gan leihau effaith y toriadau.

3.5 Fodd bynnag, bydd gwireddu'r arbedion hyn yn heriol, yn enwedig wrth ystyried yr ansicrwydd sy'n ein hwynebu i gyd. Mae GwE a swyddogion awdurdodau lleol yn cydweithio'n agos i reoli'r arbedion hyn.

4.0 Argymhelliad

4.1 Nodi cynnwys yr adroddiad ac ystyried effaith toriadau o'r fath.

5.0 Goblygiadau ariannol

5.1 Mae GwE a swyddogion awdurdodau lleol yn cydweithio'n agos i reoli'r arbedion hyn ac asesu effaith y toriadau hyn.

6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd i gydraddoldeb yn deillio o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau ar Bersonél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd ar bersonél yn deillio o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE ac mae'r aelodau'n gweithio'n agos gyda thîm GwE i reoli'r toriadau hyn.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Bydd swyddogion Cyllid yn gweithio'n agos gyda GwE dros y misoedd nesaf, i'w cynorthwyo i weithredu oddi fewn i'r adnoddau sydd ar gael iddynt, ac i liniaru effaith toriadau Llywodraeth Cymru i'r grantiau rhanbarthol.



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

20 MAI 2020

Adroddiad gan: Alwyn Jones - Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE

Testun: Cymwysterau - cyfres arholiadau haf 2020 a 2021

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

- 1.1 I'r Cyd-bwyllgor ystyried goblygiadau penderfyniad y Gweinidog i gau ysgolion a'r penderfyniad dilynol i beidio cynnal cyfres arholiadau 2020 ar gyfer dyfarnu graddau TGAU, UG, Safon Uwch, Tystysgrif Her Sgiliau a chymwysterau galwedigaethol eraill; a hefyd
- 1.2 Ystyried y goblygiadau posibl ar gyfer cyfres arholiadau haf 2021.

2.0 Cefndir

- 2.1. Yn dilyn penderfyniad y Gweinidog ar 18 Mawrth 2020 i gau ysgolion a'r penderfyniad dilynol i beidio cynnal cyfres arholiadau 2020, rhaid hwyluso dilyniant dysgwyr i chweched dosbarth, coleg, addysg uwch, hyfforddiant neu gyflogaeth. Gofynnir i ysgolion, colegau a chanolfannau arholi eraill gyflwyno **graddau asesu**, ynghyd â **threfn restrol dysgwyr** er mwyn gallu dyfarnu cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau.

Rhaid i raddau asesu'r ganolfan a gyflwynir i CBAC fod yn farn deg, resymol ac a ystyriwyd yn ofalus ar **y radd fwyaf tebygol y byddai dysgwr wedi'i chyflawni pe byddai wedi sefyll ei arholiadau yr haf hwn a chwblhau unrhyw asesiad di-arholiad**. Ni fydd dyddiad cau **cyflwyno'r data cyn 29 Mai 2020**. Bydd CBAC yn cyhoeddi'r dyddiad cyflwyno fel rhan o gyfarwyddiadau manwl pellach.

Er sicrhau tegwch i bob dysgwr, dylai barnau canolfannau ar hyd a lled Cymru fod yn gyson. Fodd bynnag, nid yw'n rhesymol disgwyl y daw athrawon mewn gwahanol ganolfannau ar hyd a lled y wlad i farn sy'n gwbl gyson â barn y naill a'r llall. Fel bod y graddau terfynol a ddyfernir mor deg ag y bo modd, bydd CBAC yn safoni barnau'r canolfannau pan fyddant wedi'u cyflwyno gan ddefnyddio dull a ddatblygwyd ar y cyd â Chymwysterau Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau na fydd canolfannau yn cael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad ar sail y graddau hyn, ac mae disgwyl i Estyn, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ddefnyddio dull cyffelyb. Ni fydd mesurau perfformiad ysgol Cyfnod Allweddol 4 ac ôl-16 yn cael eu cyfrifo ar gyfer blwyddyn ysgol 2019/20.

Ar gyfer pob cymhwyster TGAU, UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau, gofynnir i bob canolfan gyflwyno:

- Gradd **asesu'r ganolfan** ar gyfer pob dysgwr - barn broffesiynol yr athrawon pwnc, gan gynnwys y Pennaeth Adran, ar y radd fwyaf tebygol y byddai pob dysgwr wedi'i chyflawni pe byddai wedi sefyll ei arholiadau yr haf hwn.
- Trefn restrol dysgwyr o fewn bob gradd - er enghraifft, i ddysgwyr sydd â gradd B mewn mathemateg TGAU, trefn restrol ble mai 1 yw'r dysgwr ar frig y radd honno (ac sydd felly agosaf at y radd uwchben), ac yn y blaen.

Gofynnir i ganolfannau yn Lloegr gyflwyno'r un wybodaeth am TGAU, UG a Safon Uwch, a reoleiddir gan Ofqual.

- 2.2. Hyd yma, nid yw Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi arweiniad ynghylch y dysgwyr hynny sy'n paratoi ar gyfer cyfres arholiadau 2021. Trwy gyfrwng y Fforymau Penaethiaid Strategol mae Penaethiaid wedi nodi rheidrwydd brys am gyngor ac arweiniad gan Gymwysterau Cymru a CBAC ar y maes llafur a chynnwys arholiadau ar gyfer Blwyddyn 10 a Blwyddyn 12 eleni. Bu GwE yn eu cefnogi gyda'r gwaith hwn. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod gan ysgolion yr holl wybodaeth wrth gynllunio a darparu strategaethau dysgu o bell a phontio yn ôl i'r ysgol.

3.0 Ystyriaethau

- 3.1 Mae Cadeiryddion y chwe Fforwm Strategol Penaethiaid Uwchradd rhanbarthol wedi ysgrifennu at Gymwysterau Cymru yn gofyn am eglurhad neu ddehongliad beirniadol a gwedd gliriach ar y meysydd a ganlyn:
- rheidrwydd brys am gyngor ac arweiniad ar y maes llafur a chynnwys arholiadau ar gyfer Blwyddyn 10 a Blwyddyn 12 eleni. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod gan ysgolion yr holl wybodaeth wrth gynllunio a darparu strategaethau a modelau dysgu o bell;

- drwy gadw at ddefnyddio deilliannau cymaradwy, mae pryder cynyddol bod y brand TGAU yn cael ei ddiogelu ar draul cyflawniad disgyblion unigol;
- diffyg tryloywder, ar hyn o bryd, ynghylch y model ystadegol a ddefnyddir ar gyfer safoni;
- yr angen brys i fynd ati'n effeithiol i gynnal deialog broffesiynol efo Penaethiaid ynglŷn â chymhwyso 'data hanesyddol' o fewn y model ystadegol ar gyfer safoni;
- yr angen am arweiniad pellach er mwyn i randdeiliaid ddeall yn llawn y broses o 'ddyfarnu gradd' a'r 'model safoni'; a
- pryderon sylweddol y bydd ysgolion yn wynebu, yn afraid, y broses apeladau ble mae graddau asesu safonedig yn wahanol i'r rheiny a ddyfarnwyd yn wreiddiol gan yr ysgol.

Gweler copi o'r llythyr ac ymateb Cymwysterau Cymru yn Atodiad 1.

3.2 Mae Cymwysterau Cymru wedi cynnal ymgynghoriad ar sut y bydd y broses safoni ac apeladau yn gweithio ar gyfer graddau lefel TGAU, UG a Safon Uwch eleni, yn dilyn y penderfyniad i beidio cynnal arholiadau. Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw 5pm ddydd Mercher, 13 Mai 2020. Mae GwE wedi bod yn cefnogi ysgolion ac Awdurdodau Lleol gyda'u hymatebion i'r ymgynghoriad, yn ogystal â chwblhau ymateb rhanbarthol ar-lein ar sail y farn a chyngor gan Benaethiaid a Swyddogion ALL.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor ystyried yr adroddiad ac unrhyw gamau gweithredu dilynol angenrheidiol yn sgil yr adroddiad.

5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE a Fforymau Strategol Penaethiaid Uwchradd

9.0 Atodiadau

9.1 Atodiad 1 - Llythyr a anfonwyd at Gymwysterau Cymru gan Gadeiryddion Penaethiaid Rhanbarthol Fforymau ac ymateb gan Gymwysterau Cymru

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Dim i'w ychwanegu at yr adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Lôn Pencarn
Parc Imperial
Coedcernyw
Casnewydd
NP10 8AR

14 Ebrill, 2020

Annwyl Mr Phillip Blaker

Ysgrifennwn atoch ar ran ein fforymau strategol rhanbarthol i benaethiaid.

Yn dilyn yr ohebiaeth yn ddiweddar gan Gymwysterau Cymru i ysgolion uwchradd ar 3 Ebrill 2020, dyma'r meysydd/agweddau y mae ein cydweithwyr sydd yn Benaethiaid yn Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam wedi'u nodi i gael esboniad ac eglurhad yn eu cylch:

- rheidrwydd brys am gyngor ac arweiniad ar y maes llafur a chynnwys arholiadau ar gyfer Blwyddyn 10 a Blwyddyn 12 eleni. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod gan ysgolion yr holl wybodaeth wrth iddynt gynllunio a darparu strategaethau a modelau dysgu o bell;
- drwy gadw at ddefnyddio deilliannau cymaradwy, mae pryder cynyddol bod y brand TGAU yn cael ei ddiogelu ar draul cyflawniad disgyblion unigol;
- diffyg tryloywder, ar hyn o bryd, ynghylch y model ystadegol a ddefnyddir ar gyfer safoni;
- yr angen brys i fynd ati'n effeithiol i gynnal deialog broffesiynol efo penaeithiaid ynglŷn â 'data hanesyddol' o fewn y model ystadegol ar gyfer safoni;
- yr angen am arweiniad pellach er mwyn i randdeiliaid ddeall yn llawn y broses o 'ddyfarnu gradd' a'r 'model safoni';
- pryderon sylweddol y bydd ysgolion yn wynebu, yn afraid, y broses apeliadau ble mae graddau asesu safonedig yn wahanol i'r rheiny a ddyfarnwyd yn wreiddiol gan yr ysgol.

Edrychwn ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,

Aaron Bayley (Ynys Môn)
Ellen Williams (Gwynedd)
Trefor Jones (Conwy)
Claire Armitstead (Sir Ddinbych)
Jane Cooper (Sir y Fflint)
Chris Wilkinson (Wrecsam)

Cadeiryddion Fforymau Strategol Penaeithiaid Uwchradd Gogledd Cymru

By email

21 April 2020

Dear Chris

Many thanks for your letter on behalf of Heads in the GwE, which raises several matters in relation to Summer 2020 awards and also the issue of the impact on to next academic year for those learners currently in Years 10 and 12.

Let me start with this summer before moving on to next.

Firstly, I have been clear in the briefings that I gave to the Headteachers Reference Group and to Regional Consortia that we are not applying a comparable outcome approach this year, that is adhering to strict predicted outcomes. Indeed, there are many misconceptions about the role that the comparable outcomes approach plays in normal years, but now is not the time to dwell on that.

We do, however, expect that results will be 'broadly similar' this year to previous years. This is in the interest of fairness. It would be unfair for this year's cohort to be advantaged or disadvantaged relative to previous or future cohorts because of this year's exceptional and unprecedented circumstances, which are the consequence of a national public health emergency.

Results at a national cohort level are relatively stable over time, so we expect that they will remain 'broadly similar' this year. By broadly similar we expect that results at a national cohort will be sufficiently close to previous years for the results to be plausible within the education sector and wider society. There is no fixed margin of tolerance over previous years, but we do need to ensure that the unusual basis for awards this summer does not inflate outcomes artificially or unfairly.

The standardisation model will be designed by WJEC and agreed by us so that there can be confidence that schools and colleges are applying a similar standard when generating Centre Assessment Grades. This is essential as individual schools and colleges may be relatively harsh or lenient, in which case it may be necessary for the Centre Assessment Grades to be adjusted in the award of the final calculated grade.

Qualifications Wales

Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222



Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

We hope that this process will not need to make significant adjustments, and that all schools and colleges provide accurate Centre Assessment Grades, that is the grade most likely to be achieved by each candidate in each subject had they sat the examination. However, the process of standardisation is needed to ensure fairness to all.

The model for standardisation is currently being designed by WJEC, working alongside other GQ awarding bodies in England to ensure similarity across nations.

We expect that several models will be trialled with previous years and live data once this is available before the final model is agreed. Therefore, we do not expect the model to be finalised and agreed until the end of June or early July, once data has been submitted by schools and the various models checked with this data. Details of the model will be published at this point. We are also considering providing some information about the 'fit' of Centre Assessment Grades to predictions at the same time, so that there is public understanding of the degree of change that the standardisation model is likely to have to make.

We are currently working on details of the appeals process and will be consulting on this soon – we plan to launch a consultation that will run for two weeks from 28 April that will cover the aims that will underpin the award of grades this summer and the appeals process. We expect that the appeals process will be very similar to that currently being consulted on by Ofqual. We and Welsh Government are aware of the concerns that you have raised about exposure to the appeals process should Centre Assessment Grades and rank order be subject to individual subject access data requests. I cannot say more at the moment, but governments across the UK are investigating options that could put in place to protect schools post-results. You will see more about the proposals for appeals in the consultation.

Returning to your first point about the impact on current Year 10 and 12 learners. Work has started to look at the impact on next summer's examinations and clearly there are many unknowns, so multiple scenarios will need to be developed. We are currently working with WJEC to agreed principles that will underpin a subject by subject analysis of the options for change. These are likely to relate to the assessment model for next year. For example, recognising the significant time required for non-examination assessment, such as fieldwork or oral assessments, it is possible that revised arrangements will be put in place for these aspects of next year's examinations. I know that there is some call for a restricted syllabus for next year, reducing the content that needs to be delivered. Whilst not ruling this out at this early point, this seems less viable as schools and colleges will all deliver their local curriculum in slightly different ways, so there is no set order for content delivery and therefore no obvious way to make a change without there being significant disadvantage for some.

This is all early work as the priority has obviously been to establish arrangements for this summer. More information will come from WJEC as it is available and, in the meantime, we have asked Regional Consortia to help us identify a sense of priority by subject.

I am sorry that I have not been able to provide more direct answers to some of your questions, but please be assured that more information will be published as soon as possible.

Yours sincerely,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'Philip Blaker', is positioned above the printed name.

Philip Blaker

Annwyl Mrs Williams, Mr Blaker, Mr Morgan

Fel penaethiaid rhanbarth gogledd Cymru, teimlwn ei bod yn bwysig ein bod yn rhannu â chi ein pryderon a'n cwestiynau am ein sefyllfa ar hyn o bryd. Mae'n hanfodol bwysig i ni bod ein plant yn ennill y cymwysterau maen nhw'n eu haeddu ac na fydd yr un plentyn dan anfantais eleni.

Fel y gwyddoch, rydym yn weithlu moesol a'n prif ofal yw llesiant plant. Rydym yn weithlu pwrpasol a yrrir gan awydd i gefnogi plant yng nghanu nesaf eu dysgu a'r dyfodol maen nhw'n ei haeddu. Teimlwn gyfrifoldeb dwfn i gefnogi ein plant yng nghanau nesaf eu bywyd, ac i sicrhau nad yw yr un plentyn yn cael ei adael ar ôl na'i anghofio.

Gofynnwn i chi ddangos ffydd ynom i arwain a gyrru'r broses o ddyfarnu graddau eleni; i roi llais i ni yn y broses honno ac i beidio â rhoi dyfodol ein plant mewn algorithm yn unig. Yn rhy aml mae ein proffesiwn yn cael ei israddio, gennym ni ein hunain ar brydiau hyd yn oed, ac fe'n gwelir fel proffesiwn sy'n hapchwarae, sy'n uchelgeisiol, proffesiwn o rifau a thablau perfformiad, yn hytrach na phroffesiwn moesol, teg a dibynadwy sydd wedi ymroi i alluogi ein plant i ffynnu.

Hoffem ddiolch i chi am eich eglurder hyd yma, ac ategu ein bod yn teimlo yn llawer mwy sicr yma yng Nghymru na'n cyd-weithwyr dros y ffin a bod gennym lawer mwy o gefnogaeth. Fodd bynnag, mae gennym amryw o gwestiynau. O gael gwedd gliriach arnynt gallwn gynllunio yn fwy effeithiol ar gyfer addysg ein plant a'u cefnogaeth emosiynol a chymdeithasol.

1. Fe'n hysbyswyd gan ein penaethiaid pwnc y bydd Uned 7 gwyddoniaeth TGAU a chymwysterau ADA eraill a ddychwelir i CBAC yn cael eu marcio, ond na fydd marc yn cael ei anfon i ysgolion. Yn lle hynny, bydd y data hwn yn cael ei ddefnyddio i safoni perfformiad ysgol. Bu hyn yn destun pryder mawr, a chyfyd cwestiynau hefyd o ran pam y mae'r broses hon yn digwydd. Sut all data gael ei atal ac yna ei ddefnyddio i 'wirio' bod safle'r ysgol yn gywir? Os yw hyn yn wir, mae'n creu drwgdybiaeth ac yn tanseilio'r cydweithio at y deiliant cywir. A ellir cadarnhau ai hyn yw'r achos?
Hefyd,
 - i. a yw ADA yn cael eu marcio?
 - ii. a yw data yn cael ei atal?
 - iii. a yw CBAC yn defnyddio'r data hwn i safoni ysgolion?
 - iv. os felly, pam?
2. Mae defnyddio data cymaradwy a gynhyrchir a'i ategu gan brofion cenedlaethol yn destun pryder mawr; pan wneir hyn trwy ddefnyddio algorithm anhysbys ar ei ben ei hun, a heb ddeialog gyda gweithwyr proffesiynol, fe gyfyd pryder mawr. Gofynnwn beth yw ein rôl mewn gwirionedd, os yw'r algorithm hwn yn cael ei yrru gan ddata cymaradwy a data sydd eisoes yn hysbys? Pa wahaniaeth ydym ni'n wneud? Gofynnwn felly am wedd gliriach ar sut na fydd plant dan anfantais oherwydd y sefyllfaoedd a ganlyn:
 - a. Gwahaniaethau carfan sylweddol
 - i. mewn gallu gwybyddol
 - ii. prosesau gwella ysgol
 - iii. maint carfanau
 - iv. darpariaeth ar y cyd
 - b. Defnyddio data cenedlaethol
 - i. ble mae plant yn datblygu ar wahanol gyfraddau o fewn y system
 - ii. ble mae ysgolion yn troi graddau ar wahanol gyfraddau
 - iii. ble mae ysgolion yn ychwanegu gwerth ar wahanol adegau

3. Fel y gwyddoch rwy'n siŵr, mae lefel y pryder yn ein carfanau arholiadau yn hynod o uchel. Mae ar ein plant a'u rhieni ofn yr anghyfarwydd ac maen nhw'n ddig bod eu deilliannau y tu hwnt i'w rheolaeth. Bob blwyddyn mae gennym blant sy'n ein syfrdanu ac sy'n ein siomi, ac mae pryder mawr am roi y rheiny sy'n cyflawni'r tu hwnt i'n rhagfynegiadau dan anfantais. Mae gofyn am gryn dipyn yn fwy o gefnogaeth eleni na'r blynyddoedd a fu, ond gyda llai o wybodaeth a dealltwriaeth o'r system. Gofynnwn felly bod:
 - a. canlyniadau yn cael eu rhoi i ysgolion yn gynt na'r arfer er mwyn i ni allu eu prosesu a pharatoi'r gefnogaeth fydd angen i ni ei darparu ar gyfer ein plant.
 - b. yn fwy caredig wrth ddyfarnu graddau er sicrhau ein bod yn dal yr 1 neu 2% bob blwyddyn sy'n perfformio'n well na'u hamcangyfrif. Rhaid cofio eleni, yn wahanol i bob blwyddyn arall, nad yw'r un plentyn wedi cael cyfle i anelu at radd.
4. Gofynnwn am eglurhad ar ffioedd.
 - a. a fydd ffioedd arholiadau yn cael eu gostwng, fel costau bwrdd arholi?
 - b. a fydd ffioedd apeliadau yr un fath â blynyddoedd blaenorol?
5. Credwn fod nifer o'n cyd-weithwyr yn cynghori ein llywodraeth, ein bwrdd arholi a CC. Fodd bynnag, ni wyddom pwy yw'r arweinwyr hynny. Fel arweinwyr ein proffesiwn, ni wyddom gyda phwy i gysylltu i rannu ein meddyliau. Trwy adnabod cysylltiadau ym mhob ardal, credwn y gellir clywed barn pob pennaeth a chynrychioli llesiant pob plentyn ym mhob ardal. Gofynnwn felly:
 - a. pwy yw ein ymgynghorwyr yn y proffesiwn?
 - b. sut gallwn ni gysylltu â hwy?
 - c. a gynrychiolir llais pob sector?
 - d. a gynrychiolir llais pob rhanbarth yng Nghymru?
 - e. a gynrychiolir pob math o ysgol?
6. Mae ein carfan Blwyddyn 10 ac 12 hefyd yn dod yn fwy pryderus a phoenus wrth i ni aros y tu allan i ddysgu ffurfiol. Gan nad yw'n debygol y byddant yn dychwelyd i strwythur a thrylwyrdd o ran dysgu am gryn amser, gofynnwn bod penderfyniad yn cael ei wneud yn fuan ar eu methodoleg asesu a'u rhaglen astudio. Bydd hyn yn fodd i ysgolion gynllunio'n effeithiol ac yn gyfrifol ar gyfer ein plant. Gofynnwn i chi hefyd ystyried y bydd dysgu yn parhau i fod ar goll wrth i blant ddychwelyd yn raddol i'r ysgol a gweithredu ymbellhau cymdeithasol, ac y bydd gallu emosiynol ein plant pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol gryn dipyn yn llai. Wrth ddychwelyd i'r ysgol, bydd angen annog ein plant a'u helpu i wella cyn y gellir eu haddysgu ac y gallant ddysgu'n effeithiol; felly, mae'n debygol y bydd carfanau arholiadau 2020/21 wedi methu bron i hanner eu rhaglen.

Mrs Williams, fel ein Gweinidog, hoffem i chi wybod pa mor bwysig a gwerthfawr fu eich eglurder, eich cefnogaeth a'ch gofal dros ein plant, ein hysgol a'n proffesiwn. Nid ydych erioed wedi trin ein plant fel ystadegau; nid ydynt erioed wedi bod yn ddim ond rhif ac rydym wir yn ddiolchgar am hyn. Mae ein llywodraeth wedi bod yn un garedig yn ystod y cyfnod anodd hwn, a gofynnwn, gyda phob parch, i hyn barhau wrth i'n plant gael eu hasesu ac i fethodoleg asesu ein carfan nesaf gael ei hadnabod. Gofynnwn nad yw'n plant dan anfantais oherwydd data cymaradwy, dadansoddi ystadegol neu ddiffyg cyfle i ymdrechu a methu, gofynnwn bod eu gallu i ddysgu wrth ddychwelyd i'r ysgol yn cael ystyriaeth yn ein cynllunio ar gyfer y dyfodol, ond, yn fwy na dim, gofynnwn fod y caredigrwydd a'r ysbryd o haelioni a estynnwyd eisoes i'n plant yn parhau, gan mai hyn yw'r peth

moesol a'r peth iawn i wneud. Mae hon yn flwyddyn pan mae angen i ni fod yn fwy caredig, a chael ein gyrru gan farn ein proffesiwn moesol a dibynadwy.

Diolch yn fawr,

Claire Armitstead - Cadeirydd Penaethiaid Uwchradd Sir Ddinbych

Aaron Bayley - Cadeirydd Penaethiaid Uwchradd Ynys Môn

Elen Williams - Cadeirydd Penaethiaid Uwchradd Wrecsam

Jane Cooper - Cadeirydd Penaethiaid Uwchradd Sir y Fflint

Trefor Jones - Cadeirydd Penaethiaid Uwchradd Conwy



ADRODDIAD I'R CYDBWYLLGOR

20 MAI 2020

Adroddiad gan: Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Pwnc: Trefniadau pontio i gael dysgwyr yn ôl i'r ysgol

1.0 Diben yr Adroddiad

- 1.1 Caniatáu i Awdurdodau Lleol, GwE ac ysgolion baratoi ac ymateb yn gyflym pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyfarwyddo ysgolion i ailagor i ragor o ddisgyblion.

2.0 Y Cefndir

- 2.1 Mae'r Gweinidog wedi dweud yn glir y bydd unrhyw benderfyniad ynghylch ailagor ysgolion Cymru yn cael ei arwain gan y cyngor gwyddonol diweddaraf a bydd yn seiliedig ar ddiwallu'r pum egwyddor allweddol:

1. Diogelwch, a lles meddyliol, emosiynol, a chorfforol myfyrwyr a staff
2. Cyfraniad parhaus i'r ymdrech a'r strategaeth genedlaethol i frwydro yn erbyn lledaeniad Covid-19
3. Hyder rhieni, staff a myfyrwyr – yn seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth – fel y gallant gynllunio ymlaen llaw
4. Y gallu i flaenoriaethu dysgwyr ar adegau allweddol, gan gynnwys y rheini o gefndiroedd difreintiedig
5. Cysondeb â fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer gwneud penderfyniadau, i sefydlu arweiniad i gefnogi mesurau fel pellhau, rheoli presenoldeb a chymau amddiffyn ehangach

Mae'r Gweinidog hefyd wedi pwysleisio y bydd unrhyw gyhoeddiad ynghylch ailagor ysgolion yn cael ei wneud ganddi hi ac y byddai'r penderfyniad hwnnw'n cael ei gyfleu i randdeiliaid ymhell ymlaen llaw er mwyn i bawb gael amser i gynllunio ar gyfer y cam nesaf. **Ar hyn o**

bryd nid yw'r sefyllfa yng Nghymru wedi newid ac nid oes disgwyl i ysgolion agor ar 1^{af} Mehefin fel sydd wedi'i nodi yn Lloegr.

Fodd bynnag, pan fydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r cyfarwyddyd i ailagor ysgolion i ragor o ddysgwyr, mae hi'n bwysig bod ysgolion wedi'u paratoi i sicrhau bod y cyfnod pontio mor llyfn â phosibl.

3.0 Ystyriaethau

- 3.1 Mae'r papur sy'n cael ei gyflwyno yn Atodiad 1 yn amlinellu sut gall GwE, yr awdurdodau lleol ac ysgolion weithio mewn partneriaeth i ddatblygu fframwaith rhanbarthol er mwyn cynllunio'r broses o gael plant yn ôl i'r ysgol. Nod hyn yw sicrhau bod ysgolion yn cael cefnogaeth gynhwysfawr gyda'r dasg o ailagor. Bydd y Fframwaith yn cynnwys asesiadau risg a pholisïau/canllawiau drafft sy'n edrych ar amrywiaeth o feysydd y mae angen i ysgolion eu hystyried a'u datblygu. Mae Atodiad 2 yn cynnwys enghraifft o asesiad risg drafft. Bydd dull gweithredu rhanbarthol hefyd yn rhoi'r hyder i staff, disgyblion a rhieni y bydd cysondeb a thegwch yn y ffordd y caiff y gwaith o addasu ysgolion ei rheoli.

4.0 Argymhellion

- 4.1 Gofynnir i'r Cydbwyllgor gymeradwyo dull gweithredu rhanbarthol, gyda GwE, awdurdodau lleol ac ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth, ar gyfer y cam nesaf o addasu addysg yng Nghymru.

5.0 Goblygiadau Ariannol

- 5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol newydd yn deillio o'r adroddiad hwn.

6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

- 6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd i gydraddoldeb yn deillio o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau ar Bersonél

- 7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd ar bersonél yn deillio o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

- 8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE a sampl o Benaethiaid o'r sectorau gwahanol.

9.0 Atodiadau

9.1 Atodiad 1 – Papur drafft 'Trefniadau Pontio i Gael Dysgwyr yn ôl i'r Ysgol - Cydweithio i Gynllunio'n Dda'.

Atodiad 2 – Asesiad risg ysgolion uwchradd drafft.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Nodaf fod rhan 5.1 o'r adroddiad uchod yn cadarnhau nad oes unrhyw ymhlygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

TREFNIADAU PONTIO DYSGWYR YN ÔL I YSGOLION**Cydweithio i Gynllunio'n Dda**

Dyma ddrafft cyntaf dogfen sy'n ceisio cefnogi arweinwyr ysgolion, awdurdodau lleol a'r consortiwm i weithio gyda'i gilydd mewn cyfnod heriol a chymhleth digynsail.

Mae'r Gweinidog wedi mynegi'n glir y bydd unrhyw benderfyniad i ailagor ysgolion yng Nghymru yn cael ei arwain gan y cyngor gwyddonol diweddaraf ac y bydd yn seiliedig ar fodloni'r pum egwyddor allweddol isod:

1. Diogelwch a lles meddyliol, emosiynol a chorfforol myfyrwyr a staff.
2. Cyfraniad parhaus i'r ymdrech a'r strategaeth genedlaethol i frwydro yn erbyn lledaeniad COVID-19.
3. Hyder rhieni, staff a myfyrwyr - yn seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth - fel y gallant gynllunio ymlaen llaw.
4. Y gallu i flaenoriaethu dysgwyr ar gyfnodau addysgol allweddol, gan gynnwys y rheini o gefndiroedd difreintiedig.
5. Cysondeb â fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer gwneud penderfyniadau, a darparu arweiniad i gefnogi mesurau fel ymbellhau, rheoli presenoldeb a chymau amddiffyn ehangach.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi awgrymu dull graddol o ailagor a gwnaed addewid i ysgolion y byddai cyfnod arweiniol (tair wythnos) wrth symud ymlaen i'r cyfnod nesaf. Mae'r papur hwn yn ystyried rhai o'r materion allweddol y mae angen eu taclo er mwyn gallu ailagor ysgolion i fwy o ddysgwyr.

Cyfrifoldebau allweddol

Amlinellir rhai o'r cyfrifoldebau allweddol wrth arwain at ailagor ysgolion i fwy o ddysgwyr yn y tabl isod:

Tabl 1: Cyfrifoldebau allweddol wrth arwain at ailagor ysgolion i fwy o ddysgwyr

Corff	Cyfrifoldeb
Llywodraeth Cymru	• Gosod pwrpas a rhesymeg glir ar gyfer ailagor • Gosod Fframwaith a chanllawiau sy'n diffinio rolau Awdurdodau Lleol ac ysgolion i ailagor ysgolion
Awdurdodau Lleol mewn partneriaeth gyda GwE	• Gweithredu'r pwrpas a rhesymeg Genedlaethol dros agor • Mabwysiadu'r Fframwaith Cenedlaethol a chynnig arweiniad • Cynhyrchu cyfres o bolisiâu fydd yn sail i ailagor ysgolion yn ddiogel • Adnabod y trefniadau ymarferol a'r isadeiledd sydd ei angen mewn meysydd allweddol fel trafndiaeth a chapsiti er mwyn gallu ailagor yn ddiogel • Cynnal asesiad risg ar gyfer pob sector i liniaru trafferthion a rheoli ailagor diogel
Ysgolion mewn partneriaeth gyda gydag Awdurdodau Lleol a GwE	• Gweithredu'r pwrpas a rhesymeg Genedlaethol dros agor • Mabwysiadu'r Fframwaith Cenedlaethol a chynnig arweiniad • Mabwysiadu polisiâu'r awdurdod lleol • Creu asesiadau risg eu hunain • Ystyried sefyllfaoedd posib a chynlluniau er mwyn gweithredu'r pwrpas a rhesymeg Genedlaethol dros agor

	• Darparu gwybodaeth i rieni a disgyblion
--	--

Meysydd allweddol sydd angen eu taclo er mwyn gallu cyfiawnhau ailagor ysgolion i fwy o ddysgwyr

Mae meysydd allweddol y mae angen eu hystyried a'u diffinio er mwyn gallu llywio modelau ar gyfer ailagor ysgolion i fwy o ddysgwyr.

Yn gyntaf, beth yw bwriad ailagor ysgolion?:

Ai'r bwriad yw cynnig un neu fwy o'r rhestr isod?

- Rhoi gofal plant i weithwyr allweddol a rhai grwpiau bregus;
- Rhoi gofal plant i rieni fyddai'n cynorthwyo i ail-gychwyn yr economi;
- Addysgu dysgwyr bregus er mwyn cau'r bwlch cyrhaeddiad;
- Cynnal deialog ac ymgysylltiad mwy cadarnhaol ynghylch cynnal strategaethau dysgu o bell dros gyfnod estynedig o amser (tan Ionawr 2021 o bosibl); neu
- Darparu addysg amser llawn i bob dysgwr?

Unwaith y bydd gennym eglurder am y bwriad, mae angen wedyn inni asesu'r opsiynau posibl ar gyfer ailagor ar ôl ystyried y materion canlynol:

- Capasiti - adeilad i ddarparu ar gyfer dysgu, i ddarparu bwyd cinio ac i gludo disgyblion yn ôl ac ymlaen i ysgolion. Dyma fanylion sydd angen eu cynllunio ar lefel ysgol - pa opsiynau all ysgolion eu gweithredu?
- Effaith economaidd - pa opsiynau sy'n caniatáu i'r mwyafrif o deuluoedd ddychwelyd i'r gwaith?
- Effaith ar blant - pa opsiynau sy'n cael yr effaith fwyaf buddiol ar ddysgu a lles?
- Effaith ar staffio - sut i gefnogi diogelwch a lles pob aelod o staff? Beth yw'r proffil staff sydd ar gael i'r ysgol er mwyn gallu cefnogi dysgwyr yn yr ysgol a thrwy barhau i ddysgu o bell?
- Ymarferoldeb - Pa mor ymarferol yw'r opsiwn? A yw'r isadeiledd yn ei le i allu cefnogi hynny?
- Penodol i ysgolion - a ddylid delio gydag unrhyw gyfnodau neu ysgolion mewn dulliau gwahanol?

Yn dilyn ystyried pob un o'r pwyntiau uchod, gweler isod rai o'r opsiynau posibl ar gyfer ail-integreiddio dysgwyr yn ôl yn yr ysgolion:

- Dysgwyr difreintiedig - Gallai ysgolion fod ar agor yn llawn amser i'r dysgwyr mwyaf difreintiedig. Byddai hyn yn amrywio o ysgol i ysgol yn dibynnu ar y diffiniad cytunedig o 'bregus'. Yr ysgolion Arbennig a'r Unedau Cyfeirio Disgyblion fyddai'n cael eu heffeithio fwyaf gan yr opsiwn hwn. Mae'n debyg y byddai'n rhaid i'r sectorau hyn greu rota neu restr blaenoriaeth.
- Grwpiau blwyddyn pontio - Gallai ysgolion ystyried canolbwyntio ar grwpiau blwyddyn penodol sydd ar fin cyrraedd cyfnod trosglwyddo addysgol allweddol. Byddai hyn yn cynnwys o'r feithrinfa i'r ysgol gynradd, Blynyddoedd 6, 10 a 12, ond gallai hefyd gynnwys Blynyddoedd 2 neu 9.

- Grwpiau blwyddyn pontio - Efallai y bydd ysgolion o'r farn nad ddylid trosglwyddo dan yr amgylchiadau presennol.
- Pob dysgwr am lai o amser – angen diffinio a thrafod strategaethau dysgu o bell. Byddai ysgolion ar agor i bob dysgwr a fyddai'n mynychu am gyfnod cyfyngedig, yn dibynnu ar y trefniadau diogelu gorau posib: er enghraifft, wythnos y mis, patrwm bob pythefnos neu un diwrnod yr wythnos. Byddai'r aelodau staff yn cylchdroi yn yr un modd.
- Blynnyddoedd cynharach - gallai ysgolion agor ar gyfer grwpiau yn y blynnyddoedd cynharach yn gyntaf.
- Plant rhieni sydd angen gadael eu cartrefi i fynd i weithio - byddai hyn yn blaenoriaethu plant y mae angen i'w rhieni adael eu cartrefi i weithio.
- A ddylai plant o fewn yr un teulu fynychu ar yr un pryd?

Wrth ystyried yr opsiynau uchod, bydd yn rhaid i ysgolion ystyried hefyd na fydd rhai rhieni o'r farn ei bod yn ddiogel gadael i'w plant fynychu'r ysgol ac y bydd yn rhaid i ysgolion addasu eu cynlluniau yn unol â hynny. Bydd cyfathrebu â rhieni yn hanfodol er mwyn esbonio'r rhesymeg y tu ôl i'r opsiwn a ddewisir.

Yn dilyn hyn bydd yn rhaid i ysgolion, gan weithio gyda'r Awdurdod Lleol, ystyried mabwysiadu gwahanol fodelau er mwyn cynnig y ddarpariaeth orau ar gyfer eu dysgwyr hwy:

Bydd Llywodraeth Cymru yn nodi'r bwriad dros ailagor ysgolion. Ni fydd yr un dull yn gweithio i bawb gan fod ffactorau gwahanol a niferus ym mhob ysgol unigol. Bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau ar lefel Awdurdod Lleol o fewn Fframwaith Cenedlaethol neu / a chan ysgolion unigol er mwyn gallu darparu ar gyfer yr opsiwn gorau.

- Yr opsiwn a ffafrir - byddai ysgolion yn mabwysiadu un o'r opsiynau ac yna'n gallu cyflwyno, ychwanegu neu ddileu opsiynau eraill yn ôl y capasiti.
- Byddai opsiynau sy'n targedu gwahanol grwpiau ysgol yn ôl eu hangen dros gyfnod estynedig yn mabwysiadu gwahanol opsiynau dros amser ac ar wahanol bwyntiau, er mwyn cefnogi gwahanol grwpiau o ddysgwyr yn ystodau cyfnodau allweddol. Byddai hyn wedyn yn cynyddu / gostwng er mwyn cyfuno opsiynau unrhyw bryd yn ôl y capasiti.
- Cyfuniad o opsiynau am amseroedd llai - byddai ysgolion yn cyfuno cyfuniad o'r gwahanol opsiynau uchod ond am amser llai ar gyfer pob un. Byddai'r amser a roddir i bob opsiwn wedyn yn cynyddu/ gostwng yn ôl y capasiti.
- Ystyried ymestyn y diwrnod ysgol i allu cynyddu capasiti - blociau 4 awr yn y bore a phedair awr yn y prynhawn gyda chyfnod trosiant o awr

Ffactorau a risgiau y bydd angen eu hystyried wrth asesu opsiynau a modelau:

- Nid yw'r patrwm a threfniadau arferol ysgolion yn cynnig eu hunain ar gyfer pellter cymdeithasol.
- Gall gwneud penderfyniad yn rhy gynnar gynyddu lledaeniad y firws.
- A yw'r data iechyd presennol ynghylch Covid 19 yn cefnogi agor i grwpiau mwy?
- Pa mor hir fydd y ddarpariaeth ffyrlo'n parhau?
- A fydd y canllawiau pellter cymdeithasol 2 fetr yn parhau?
- Pryder rhieni ynghylch y dystiolaeth wyddonol i benderfynu agor ysgolion neu peidio.
- Iechyd, pryder a straen y gweithlu.

- Teithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol.
- Strwythur teuluoedd.
- Ansawdd a chapasiti adeiladau ysgolion.
- Canllawiau i ysgolion a staff.
- Cymwysterau Cymru sy'n penderfynu sut y bydd cymwysterau'n cael eu hasesu yn 2021.

Materion i'w hystyried wrth ailagor ysgolion

Bwriad y rhestr hon o faterion i'w hystyried wrth ailagor ysgolion yw darparu fframwaith ymarferol i helpu ysgolion i gynllunio'r camau a'r penderfyniadau penodol y bydd angen iddynt eu cymryd yn y cyfnod cyn ailagor ac i gynnig sylfaen i ysgolion agor ymhellach yn ôl yr angen. Er mwyn hwyluso pethau mae'r rhain wedi'u rhannu'n chwe maes: diogelwch; safle a chyfleusterau; staffio; addysgu a dysgu; cefnogaeth disgyblion a thasgau rheoli allweddol eraill.

Gall ysgolion unigol ddefnyddio'r fframwaith i greu eu cynlluniau penodol mwy manwl eu hunain i adlewyrchu cyfnodau ysgol, y math o ysgol a chyd-destunau lleol eraill.

Bydd y camau gweithredu a'r penderfyniadau allweddol y cytunwyd arnynt yn ei gwneud yn gliriach beth fydd rôl awdurdodau lleol a GwE wrth gefnogi ysgolion i ailagor.

Bydd fframwaith sylfaenol cyffredin hefyd yn galluogi ysgolion i gydweithio er mwyn rhannu syniadau a dogfennaeth.

Cafodd y ddogfen gychwynnol hon ei drafftio gan weithgor yn GwE a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob cyfnod addysg a phob math o ysgol. Y cam nesaf fydd ymgynghori'n eang ag arweinwyr ysgolion ac awdurdodau lleol i wella ansawdd y rhestr wirio a'i gwneud mor ddefnyddiol â phosibl, cyn cytuno ar y fersiwn derfynol.

Gwneir hyn yn y gobaith mai'r ffordd sicraf o ennyn hyder rhieni, disgyblion a chydweithwyr yw gweithio gyda'n gilydd i gynllunio'n dda.

Tabl 2: Ystyriaethau wrth ailagor ysgolion

MATERION I'W HYSTYRIED WRTH AILAGOR YSGOLION		
DIOGELWCH	Awdurdod Lleol / GwE	Ysgol
Diweddaru Polisi a gweithdrefnau Diogelu, e.e. dysgu o bell		
Diweddaru Polisi Iechyd a Diogelwch		
Cwblhau asesiadau risg Covid-19 a pholisïau eraill e.e. disgyblion a staff bregus gyda risg uchel		
Cynllun clir ar gyfer rheoli Covid 19 ar safleoedd		
PPE - nodi anghenion / trefn gynnar / gweithdrefnau ar gyfer dosbarthu, casglu a gwaredu / arweiniad ar ddefnyddio		

Teithio - effaith pellhau cymdeithasol / goruchwylio cyrraedd a gadael yr ysgol / gollwng a chasglu gan rieni		
Adolygu amseroedd diwrnod ysgol - amseroedd dechrau a gorffen / egwyl a chinio / gwersi		
Paratoi ardaloedd addysgu		
Ymwelwyr - pwy a sut		
Rheoli gwaith cynnal a chadw arferol ysgolion, e.e. profi offer, torri gwair		
SAFLE AC ADNODDAU	Awdurdod Lleol / GwE	Ysgol
Protocolau pellhau cymdeithasol - mesur y safle a gwagleoedd i gyfrifo capasiti / paru maint dosbarthiadau gyda gofynion pwnc / defnyddio ardaloedd mwy a thu allan / mynedfa ac allanfa / egwyl a chinio / symud o amgylch yr ysgol / lefelau goruchwyliaeth staff / arwyddion		
Protocolau hylendid - golchi dwylo / sychu arwynebau / defnyddio PPE / paratoi bwyd yn ddiogel / deunyddiau sydd angen eu harchebu'n gynnar, e.e. glanedyddion dwylo		
Adolygu gweithdrefnau glanhau - gallu ac argaeledd staff / oriau ychwanegol / archebu nwyddau'n gynnar a storio cynhyrchion glanhau / ad-drefnu gweithdrefnau glanhau ar gyfer ardaloedd cymdeithasol, ystafelloedd dosbarth, toiledau		
Addasiadau i'r safle, e.e. er mwyn sicrhau mynedfa ac allanfa ddiogel		
Rhentu (gosod) adeiladau a rhannu defnydd o'r safle		
DYSGU AC ADDYSGU	Awdurdod Lleol / GwE	Ysgol
Penderfynu beth fyddai'n addasiadau rhesymol er mwyn darparu'r cwricwlwm yn yr ysgol - adolygiad fesul pwnc / argaeledd staff / cyfleusterau / gofynion arholiad / darpariaeth wedi'i gyfuno gyda dysgu o bell		

Datblygu modelau o sut y gellid mynd ati i ddysgu o bell gan ystyried y gwahanol opsiynau ar gyfer cysylltu â grwpiau o ddysgwyr		
Diweddaru canllawiau ar gyfer dysgu o bell i gefnogi'r holl staff a pharhau i ddatblygu sgiliau digidol lle bo angen		
Ystyried arferion gorau rhyngwladol a seilio penderfyniadau ar dystiolaeth i sicrhau fod y dulliau lleol yn rhai cadarn		
Adolygu amserlenni a darparu amserlenni dyddiol unigol		
Asesu a delio â bylchau mewn sgiliau a gwybodaeth, yn enwedig disgyblion bregus		
Asesu a delio â'r effaith sydd ar ddysgu materion yn gysylltiedig â lles disgyblion		
Newidiadau i ddull yr ysgol gyfan o addysgu, e.e. cymorth gan gymorthyddion, gwaith grŵp, rhannu adnoddau		
Cyfnodau pontio disgyblion rhwng ysgolion a chyfnodau allweddol ac o fewn ysgol o ddosbarth i ddosbarth		
Darpariaeth allgyrsiol ac oddi ar y safle		
STAFFIO		
STAFFIO	Awdurdod Lleol / GwE	Ysgol
Ymgynghori a darparu arweiniad i staff ar bob agwedd yn ymwneud gyda dychwelyd i'r ysgol e.e. diweddaru llawlyfr staff		
Sefydlu beth yw argaeledd staff cyfredol e.e. absenoldebau sy'n gysylltiedig ag iechyd		
Sefydlu cefnogaeth glir i les staff gan gynnwys staff absennol		
Cyfrifo gofynion niferoedd staff o fewn ysgolion a darparu rota ddyddiol - diogelu / cefnogaeth AAA / goruchwyllo / arbenigedd pwnc / cynnwys darpariaeth barhaus ar gyfer disgyblion bregus / llwyth gwaith staff, e.e. cydbwysedd rhwng ymrwymadau dysgu ar safle'r ysgol ac ar gyfer dysgu o bell		
Adolygu rolau staff i gefnogi trefniadau newydd e.e. staff bugeiliol allweddol, adleoli rhai aelodau staff cefnogol		
Sut y bydd absenoldeb staff yn cael ei ddelio ag o a'i reoli		
Hyfforddiant staff – sut?		

Recruiwio staff eraill/ rheoli perfformiad / cefnogaeth ANG ychwanegol		
CEFNOGAETH I DDISGYBLION	Awdurdod Lleol / GwE	School
Sut fydd disgyblion yn cael eu cefnogi i baratoi a dychwelyd i ddysgu yn yr ysgol - arweiniad a disgwyliadau /gwerthusiadau clir o'u parodrwydd i ddychwelyd / cefnogaeth lles / llais disgyblion / brodyr a chwiorydd		
Sut fydd presenoldeb disgyblion yn cael ei reoli?		
Pontio disgyblion (gweler yr adran addysgu a'r dysgu)		
Cyfathrebu â rhieni - hysbysu, arwain a thawelu meddwl / rheoli pryderon rhieni / y defnydd o gyfryngau cymdeithasol		
TASGAU RHEOLI ALLWEDDOL ERAILL	Awdurdod Lleol / GwE	Ysgol
Pa gefnogaeth sydd ei angen gan yr Awdurdod Lleol a GwE		
Sut y gall ysgolion gydweithio, e.e. llythyrau templed, rhannu asesiadau risg		
Llywodraethwyr - rôl wrth gynllunio, monitro a gwneud penderfyniadau / newidiadau polisi / cyfarfodydd		
Ailedrych ar flaenoriaethau ac amserlenni'r Cynllun Gwella Ysgol		
Cyllideb ysgolion - ail-gyfrifo rhagamcanion y cyfrifon i gynnwys costau ac arbedion ychwanegol i'r gwariant dydd i ddydd		
Adolygu'r calendr digwyddiadau presennol e.e. nosweithiau rhieni		

Yn ogystal ag ystyried yr agweddau hyn, bydd hefyd angen i bob ysgol gynnal eu hasesiad risg eu hunain gan gymryd yr ystyriaethau o fewn y canllawiau i ystyriaeth ac er mwyn llywio penderfyniadau'r Awdurdod Lleol.

Gweler Atodiad 1 am enghraifft o Asesiad Risg

COVID-19 - Strategaeth Ymadael Ysgol Uwchradd					
Pump egwyddor dychwelyd i'r ysgol 1.Diogelwch a lles meddyliol, emosiynol a chorfforol myfyrwyr a staff 2.Cyfraniad parhaus at yr ymdrech o'r strategaeth cenedlaethol i atal Covid-19 rhag lledaenu 3.Ennyn hyder rhieni, staff a myfyrwyr - ar sail tystiolaeth a gwybodaeth - fel y gallent gynllunio ymlaen 4.Gallu blaenoriaethu dysgwyr ar adegau allweddol, gan gynnwys y rheiny o gefndiroedd diffreintiedig 5.Cael canllawiau i gynnal y mesurau hyn fel cadw pellter, rheoli presenoldeb a chamau gweithredu eraill i amddiffyn.					
Cwestiynau i'w hystyried: Gan dybio y bydd angen i lai o ddisgyblion fod yn yr ysgol i ddechrau, pa fodel yr ydych chi'n ei ffafrio fwyaf i gyflawni hyn? A yw'n well cael pob myfyrwr i mewn ar sail rota, neu grwpiau blwyddyn penodol? I ba raddau y dylai'r Llywodraeth ddweud pwy ddylai fod yn yr ysgol, a faint dylai ysgolion allu penderfynu drostynt eu hunain? Petai cyhoeddiad i fwy o ddisgyblion rhyw lun o ddychwelyd i ysgolion, a bod cyfnod o dair wythnos yn arwain at hynny, beth fyddai'r camau a'r penderfyniadau penodol y byddai'n rhaid i ysgolion/ymddiriedolaethau eu cymryd yn yr amser hwnnw? <i>Pwrpas a disgwyliadau, Amserlenni, Polisiau Diogelwch, Asesiadau risg a rheoliadau, Safle a chyfleusterau, Trafnidiaeth, Staffio, Dysgu ac Addysgu</i> bod yn eu lle cyn y gall ysgolion agor ymhellach? Yn arbennig, petai'n ofynnol i ysgolion gynllunio i fwy o ddisgyblion ddychwelyd, sut ellid cadw pellter cymdeithasol, a sut allai hyn amrywio o ysgol i ysgol? A oes unrhyw sefyllfaedd y gallai ysgolion wynebu a fyddai'n ei gwneud hi'n amhosib iddynt gymryd mwy o ddisgyblion ymhlen agor mewn tair wythnos? (e.e. cwmniau contractio wedi mynd i'r wal), ble byddai'n rhaid cael 'fffenestr' ail agor (h.y. rhwng dyddiad A a dyddiad B)? Pa amodau sydd angen					
Gall y canlynol fod yn fan cychwyn i gwmpasu eich asesiad risg a'ch ymateb strategol					
Cynnal proffil staffio → proffil cynhwysedd yr adeilad o dan gofynion cyfredol cadw pellter cymdeithasol → proffil gofynion iechyd a diogelwch adeiladau → proffil adleoli staff ar sail gweithgarwch yn yr ysgol a gofynion dysgu o bell → proffil goblygiadau cludiant → proffil trefn feunyddiol					
Maes Pryder	Mesurau parod	Tebygolrwydd x Dirifrodeb	Mesurau ychwanegol	Tebygolrwydd x Dirifrodeb	Sylwadau Ychwanegol
Adeiladau	Cyfrifo cynhwysedd ysgolion	4 x 3 = 12	Yn ôl cyfrifiadau cynhwysedd, gallai 56 m ² safonol gymryd 8 disgybl i ganiatau ar gyfer cadw pellter cymdeithasol o 2m. Ar gyfer ysgol arferol efo amrywiaeth o ddosbarthiadau byddai hyn yn awgrymu a cynhwysedd posibl o 35% o ddefnydd arferol. Mae'r dosbarth cyfartalog, efo dodrefn a staff ychwanegol yn 6 disgybl. Gallai ysgolion fod eisiau gweithredu factorau cyfyngu eraill neu edrych ar raddol cynhwysedd o 20% i 40% yn dibynnu ar eu cyfyngiadau unigol. Gallai ysgolion fod eisiau dechrau ar ben isaf yr ystod ac ar sail profiad addasu cynhwysedd dros yr wythnosau dilynol.	3 x 3 = 9	Mae gan ALI ddata ar gynhwysedd a gellid cynnal amrywiaeth o fodolau wrth i'r cyngor ar gadw pellter cymdeithasol aeddfedu gyda'r cyngor gwyddonol cyfredol.
Swyddogaeth adeiladau	Gofynion iechyd a diogelwch yn ymwneud â dosbarthiadau a defnyddio isadeiledd ysgolion	4 x 4 = 16	Bydd angen i ysgolion edrych ar y mesurau o ran glanhau, golchi dwylo, toiledau, arllwyo a defnydd o'r golof cymdeithasol.	4 x 4 = 16	Mae angen i ysgolion ofalu bod yr holl wiriadau iechyd a diogelwch wedi'u cwblhau ar ôl cyfnod o gau fel clefyd Legionnaire, profil larymau tân a systemau chwistrellu dŵr, tynnu llwch ac ati (sylwch nad yw hon yn rhestr lawn ac y bydd angen i ysgolion gysylltu â'u hymgyngorwyr iechyd a Diogelwch am asesiad cyfansawdd).
Adnabod disgyblion i'w hallintgreiddio	Wrthi'n gweithio ar ddiffiniad LIC o weithwyr bregus ac allweddol - niferoedd presennol sydd angen cymorth yn codi	4 x 3 = 12	All integreiddio ar sail anghenion. Dim cymysgu anghenion/cyfnodau. Asesiad risg unigol i bob disgybl sydd â chynllun gofal. Dechrau efo cynhwysedd 20% a chynyddu yn ôl llwyddiant. Oni bai y caiff ei reoli'n ofalus iawn, gallai hyn achosi i'r ysgol fod ar gau am gyfnod hir.	3 x 3 = 9	Angen cymorth gan bob gwasaneth ALI i reoli disgwyliadau rhieni/gofalwyr. Gallai hyn ddibynnu ar pam bod ysgolion yn ail agor - addysg, lles neu economi. Mewn ysgolion uwchradd - gall y cwrwllwm fod yn seiliedig ar brosiect yn dibynnu faint o staff sydd ar gael. Efallai bydd angen ystyried teuluoedd sydd â mwy nag un plentyn yn yr ysgol. A yw Blwyddyn 10, Blwyddyn 12, Blwyddyn 6 yn flaenoriaeth er enghraifft, neu deuluoedd sydd mewn angen, teuluoedd sy'n gweithio? Y Gymraeg? Rhaid cael cyfarwyddwyd cenedlaethol pendant ar bwy sy'n cael blaenoriaeth ar sail y rheswm dros ail agor ysgolion. Ysgolion wedyn yn gorffwrdd chwilio am y datrysiadau lleol. 3 grŵp i'w hadnabod - grŵp cyntaf yn yr ysgol ond mewn amgylchiadau anghyfarwydd, all grŵp methu dod i mewn (bregus ac ati), trydydd grŵp yn anfodlon dod i mewn (awgrymu cyswllt ag AA a thrydydd grŵp) - Byddai ysgolion yn annoeth i orfodi unrhyw un i ddod i'r ysgol - efallai bydd angen polisi presenoldeb dros dro ar ysgolion. Efallai bydd ysgolion eisiau ystyried a yw bregus yn flaenoriaeth, yna dan fantais digidol yna AAA ac Anableddau.
Staff sydd ar gael	Oherwydd system rota, mae nifer y staff sydd ar gael yn briodol ar hyn o bryd. Mae tua 10% yn gwarhod eu hunain, a 5% methu gweithio am resymau eraill.	3 x 3 = 9	Wrth i gyswllt â mwy o ddisgyblion gynyddu, risg i staff orfod yrru yn cynyddu. Staff sydd ag asthma yn llai tebygol o fynd i'r gwaith - angen arweiniad cenedlaethol. Bydd staff sydd â gorbyrded efallai'n ei gweld hi'n anodd mynd i'r gwaith heb gael eu sicrhau.	4 x 2 = 8	Angen canllawiau cenedlaethol/lleol ar asthma. Felly adnabod staff sy'n gweithio gartref a staff sydd ar gael yn yr ysgol. Mater ychwanegol yw staff sydd â phlant oedran ysgol, mae angen adnabod hyn a'i ystyried yn y rota. Dylai ysgolion ystyried adleoli staff: ni fydd staff sy'n gweithio yn yr ysgol yn gallu gwneud yr un dyletswyddau dysgu o bell. Gall fod angen ystyried adleoli grwpiau i sicrhau tegwch a chydwyseidd ymysg staff.
Cludiant	Penodol iawn i ysgol, yn amrywio o isafswm gofynion gyda'r mwyafrif yn byw o fewn 3 milltir gyda theithio diogel i'r ysgol i ysgolion sydd angen i fwyafrit y disgyblion gael eu cludo i'r ysgol. Mae hefyd angen ystyried myfyrwyr bregus y mae armynt angen trefniadau unigryw.	3 x 4 = 12	Cysylltu â'r ALI am gludiant yn gysylltiedig â diwmod ysgol sydd wedi'i ailwampio a faint fydd angen. Parhau i leihau niferoedd yn y cludiant.	4 x 4 = 16	Bydd pob glât heblaw am y glât frynt ar gau. UDA ar y glât i adael bysus a thacsis i mewn ac allan unwaith y bydd yn ddiogel. Rhaid i hyn fod yn berthnasol i bob safle - dylai fod yn hyblyg i bob ysgol. Bydd angen i blant ar fysus fod ar rota hefyd. Creu manau gollwng disgyblion - meysydd parcio gerllaw ac ati.
Cyrraedd yr ysgol	Pob cludiant i gyrraedd yr ysgol a gollwng disgyblion mewn un lle canolog. Gofynnir i rieni beidio â dod â phlant ar safle'r ysgol neu gyfyngu mynediad at adeilad yr ysgol.	3 x 3 = 9	Efallai bydd ysgolion yn dymuno ystyried stagro amseroedd cychwyn neu raddoli grwpiau blwyddyn dros sesiynau bore a phrynghawn ar wahân. Pob disgybl i aros yn y tacsï nes daw staff i'w nôl nhw. Disgyblion i ddod i mewn drwy un drws a golchi dwylo cyn mynd i'r dosbarth. Efallai bydd ysgolion eisiau ystyried bod disgyblion yn aros yn yr ystafelloedd dynodedig a bod staff yn symud i'r dosbarthiadau hyn.	4 x 4 = 16	Disgyblion nad ydynt yn yr ysgol yn cael eu denu i gyfarfod â ffrindiau tu allan i'r ysgol a fyddai'n codi peryglon ychwanegol. Dylid parhau i gysylltu o bell â rhiant/gofalwr.
Cyrraedd y dosbarth	Gall cyfyngiadau'r adeilad olygu ychydig iawn o ddisgyblion yn mhob dosbarth. Wrth weithredu polisi disgyblion statig a staff symudol, byddai'n rhaid i hyn fod ar sail gwaith prosiect.	3 x 2 = 6	Symud desgiau i sicrhau cadw pellter cymdeithasol. Pob disgybl i gael ei le ei hun a'i gyfarpar ei hun i weithio. Bydd angen i'r amserlen ystyried amser i gymryd egwyl i fynd i'r toiled, fesul dipyn.	3 x 4 = 12	A oes digon o doiledau/cyfleusterau ymolchi yn y bloc addysgu cyfyngedig? A oes digon o gyfleusterau golchi dwylo? Ystyried system unifordd tu mewn a thu allan i'r ysgol. Gadael drysau ar agor (ar wahân i ddrysau tân) fel nad oes angen cyffwrdd â dolenni drysau ac ati.

Amseroedd egwyl/cinio	Mae risg sylweddol i'r gofyn am gadw pellter cymdeithasol, a gallu staff i bilsmona gofynion yn ddiogel.	4 x 3 = 12	Dylid rhoi ystyriaeth i gwtog'r diwrnod i leihau grwpiau torfol amser egwyl. Dylid rhoi ystyriaeth bellach i ddileu'r angen am amser criso drwy gwtog'r diwrnod a graddoli grwpiau bwydydd rhwng y bore a'r prynhawn. Gellid parhau i weithredu'r drefn bresennol i blant PYD.	4 x 3 = 12	Byddai hyn yn dibynnu ar nifer y disgyblion a faint o dir sydd ar gael - posibl cael ardaloedd ac ati - rheolau chwarae/ymgysylltu ac ati - gwneud efo disgyblion.
Dal/Lledaenu. Methu cadw pellter cymdeithasol wrth wneud cymorth cyntaf.	A yw'r ysgol yn dilyn canllawiau iechyd Cyhoeddus Cymru o ran menig a ffedoga? Dylai masgiau wyneb hefyd fod ar gael i staff.	4 x 3 = 12	Dilyn canllawiau ar gyfarpar amddiffyn personol gan gynnwys masgiau wneib, ffedoga a menig. Rhoi gwastraff mewn dau fag. Gofalu bod bintau sbwriel yn cael eu gwagio pob diwrnod gan y tîm gofalwyr. Cynyddu oriau glanhau i ofalu bod pob arwyneb yn cael ei glanhau yn drylwyr ar ddiwedd y dydd/shift.	3 x 3 = 9	Adolygu oriau/trefn lanhau i feithrin hyder y cyhoedd. Angen strategaeth i unrhyw aelod staff sy'n dangos symptomau Covid-19. Polisi ar gael i roi gwybod i gymuned yr ysgol am unrhyw achosion wedi'u cadarnhau a'r gallu i olrhain, ble'n bosibl, eraill allai fod wedi dod i gysylltiad â'r achos sydd wedi'i gadarnhau.
Ymwelwyr yn yr ysgol	Dim ond ymwelwyr hanfodol i gyrraedd y brif dderbynfaf ac aros i staff ddoe atynt. Dim ymwelwyr i'r ysgol oni bai bod hyn wedi'i drefnu o flaen llaw.	3 x 3 = 9	Pob ymwelydd i fod wedi'i drefnu o flaen llaw. Dim ymwelwyr allanol heblaw am ymwelwyr allweddol e.e. nyrs ysgol, gweithwyr cymdeithasol amddiffyn plant. Canslo pob ymweliad/cyswllt anstatudol neu eu gwneud drwy rith gyfarfodydd.	4 x 3 = 12	Cefnogaeth yr ALI i reoli disgwyliadau rhieni ac asiantaethau allanol bod ysgolion yn rhedeg 'yn ôl yr arfer' yn syth. Dim ymweliadau na chyfarfodydd afraid - gallent fod dros y ffôn neu Teams ac ati. Rhaid cadw cydbwysedd rhwng diogelwch y safle a'r polisi o gadw pob drws ar agor ar wahân i ddrysau tân a drysau toiled.
Trefniadau glanhau	Newid trefn lanhau i ganolbwyntio ar arwynebau, drysau a mannau cyffredin. Gofynnir i staff fod yn ystyriol o gefnogi'r drefn lanhau.	4 x 3 = 12	Glanhau i ganolbwyntio ar y blociau cyfyngedig a datblygu polisi ar gyfer glanhau'n drylwyr.	3 x 3 = 9	Costau cysylltiedig oherwydd ymateb i asesiad risg.
Adolygu polisiâu allweddol	Gwerthuso'r polisiâu presennol i sicrhau y byddant yn gwrthsefyll unrhyw graffu o dan y gofynion presennol.	3 x 3 = 9	Gosod strwythur adolygu polisi i sicrhau bod y Corff Llywodraethu yn craffu a chymeradwyo.	4 x 3 = 12	Cysylltu ag ALI i rannu arferion da a chydymffurfiaid.
Creu canllawiau ysgol newydd	Mae'r arferion gwaith presennol wedi esblygu yn ystod y cyfnod all-bwrpasu ysgolion. Dylai ysgolion ystyried gosod canllawiau newydd ar gyfer y cyfnod nesaf hwn o ail ymgysylltu.	3 x 3 = 9	Datblygu set o ddisgwyliadau ac egwyddorion canllawiau i holl randdeiliaid yr ysgol.	3 x 3 = 9	Gwrio efo Adnoddau Dynol bod unrhyw arweiniad diwygiedig yn cydymffurfio â chytundebau efo Undebau a Chymdeithas. Gall ysgolion fod eisieu ystyried datblygu llawlyfr (copi caled ac/neu ar-lein) i gyfeirio ato ar gyfer y trefniadau gweithredu newydd.
Adolygu trefniadau dysgu o bell i gynnwys mwy o ddysgwyr yn cael cyswllt â'r ysgol	Mae llawer o ysgolion sy'n gweithredu yn gwneud hynny efo ryw 2% o boblogaeth yr ysgol. Bydd unrhyw ail ymgysylltu yn effeithio'n sylweddol ar y trefniadau hyn.	4 x 3 = 12	Yn ôl cyfrifiadau cynhyseidd a modelu disgwyliadau, awgrym y gallai ail ymgysylltu fod rhwng 15% a 40%.	4 x 3 = 12	Dylai trefniadau gweithredu edrych ar effaith ymarferol ail ymgysylltu gan ddechrau ar 15% yn wreiddiol a chodi fesul 10%.
Diwrnod anwytho i staff ar y prosesau newydd	Yn rhan o'r rhaglen gynllunio, dylai ysgolion geisio cael rhaglenni datblygu profesiynol sy'n seiliedig ar y gweithdrefnau gweithredu newydd.	3 x 3 = 9	Gall ysgolion ddymuno ystyried graddoli yr hyfforddiant hwn i sicrhau canllawiau cadw pellter cymdeithasol priodol	3 x 3 = 9	Rhaglen raddol yn cynnwys hyfforddiant ac arweiniad ar yr arferion, y trefniadau a'r polisiâu gweithredu newydd, ac amser i staff barato'n bersonol. Dylid hefyd rhoi amser i addasu efo dosbarthiadau yn unol â'r trefniadau gweithredu newydd.
Adolygu'r cynnig cwricwlwm	Mae'n annhebygol y gellid alladodd y cynnig cwricwlwm safonol a gafodd disgyblion yn Nhyddor yr Hydref (2019) dan y cyfyngiadau diwygiedig.	3 x 3 = 9	Dylai ysgolion ystyried allstrwythuro efo cynnig cwricwlwm naill ai ar sail cynnig craidd, craidd + cynnig neu gynnig prosiect.	4 x 3 = 12	Rhannwyd arweiniad ar ail gynllunio'r cwricwlwm gan draws y rhanbarth yn yr hyfforddiant cynllunio cwricwlwm gan Ian Gerrard. Dyma ddolen i'w gyflwyniad PowerPoint. 
Crisiau pwrpas presenoldeb addysgol ar safleoedd ysgol	Bydd yn anodd gorfodi gofynion presenoldeb safonol oherwydd gallai dymuniadau rhieni/gofalwyr amrywio'n fawr o ran eu disgwyliadau am ddiogelwch eu plant mewn rhaglen ail ymgysylltu.	4 x 4 = 16	Bydd angen i ysgolion gysylltu â'u ALI i bennu pa ganllawiau a disgwyliadau i'w rhannu â rhieni/gofalwyr, a chreu gweithdrefnau gwrio ac olrhain os teimlant bod disgyblion tu allan i'r disgwyliadau hyn.	4 x 4 = 16	Mae angen rhannu unrhyw ganllawiau diwygiedig mewn da bryd efo'r holl randdeiliaid i sicrhau cysondeb disgwyliadau a'r hawi i ofyn i ysgolion ac ALI ystyried amgylchiadau unigol. Dylai hyn fod yn broses o amnwg yn hytrach na gorfodi, oni bai bod pryder diogelu.
Asesu risg i staff a dysgwyr bregus	Bydd angen i ysgolion ddatblygu cofrestr staff a disgyblion sydd yn 'fregus' o dan y gofynion cyfredol.	4 x 4 = 16	Bydd angen ddiweddarw wrth i'r sefyllfa ddiennag hyn newid a bydd angen cyfleu unrhyw newid mewn statws mewn da bryd cyn i'r statws newydd ddechrau.	4 x 4 = 16	Dylid gwneud hyn ar y cyd â'r ALI i sicrhau cysondeb ac ymgynghori'n briodol â'r holl randdeiliaid.

NODIADAU CANLLAW									
DIFRIFOLDEB	5	5	10	15	20	25	TEBYGOLRWYDD		
	4	4	8	12	16	20			
	3	3	6	9	12	15	DIFRIFOLDEB		
	2	2	4	6	8	10			
	1	1	2	3	4	5	TEBYGOLRWYDD		
		1	2	3	4	5			
	TEBYGOLRWYDD								

TEBYGOLRWYDD		DIFRIFOLDEB	
5	Bron yn sicr – Risg Uchel iawn	5	Marwoldeb – Risg Uchel iawn
4	Tebygol – Risg Uchel	4	Anallu difrifol – Risg Uchel
3	50/50 – Risg Ganolig	3	Absennol 3 wythnos – Risg Ganolig
2	Annhebygol - Risg Isel	2	Absennol llai na diwrnod – Risg Isel
1	Bron yn amhosibl – Risg Isel	1	Dinod – Risg Isel

1-4 Isel	5-9 Canolig	10-15 Uchel	10-25 Uchel iawn
Parhau gyda’r mesurau presennol, ond monitro am newidiadau. Gweithredu unrhyw fesurau rheoli ychwanegol sydd eu hangen, o fewn yr amserlenni a nodir yn yr asesiad risg.	Angen sylw i leihau’r risg yn ogystal â monitro rheolaidd cyson. Gweithredu unrhyw fesurau rheoli ychwanegol sydd eu hangen, o fewn yr amserlenni a nodir yn yr asesiad risg.	Angen sylw ar unwaith i dddod â’r risg i lawr i lefel dderbyniol. Gweithredu’r mesurau rheoli sydd eu hangen, o fewn yr amserlenni a nodir yn yr asesiad risg, a pharhau i adolygu’r arferion gwaith i leihau tebygolrwydd damwain i’r lefel isaf bosibl.	Rhoi’r gorau iddi ar unwaith – mae’r risg yn rhy uchel. Gweithredu ar unwaith i leihau’r risg i’r lefel isaf bosibl.